

## Irene a David Gladstone

## Cyfranogwyr dros 50 oed - pâr priod

**1. Allwch chi ddweud ychydig wrthym amdanoch chi'ch hun a sut oedd bywyd cyn i chi ymwneud â'r Ffwrnes Fach?**

Roedd yn anodd oherwydd daethom i Dde Cymru oherwydd diffyg gwaith yn ein tref genedigol, ac mae Irene yn wreiddiol o Landeilo, felly cawsom wahoddiad i lawr gan y teulu. Do’dd dim llawer o waith ‘ma ond hefyd do’dd dim prinder. Dechreuon ni fusnes adeiladwyr a nethon ni weithio ar sawl eiddo yn ardal Sir Gaerfyrddin. Felly, ein prif nod o’dd symud yn nes at y teulu.

**2. Sut wnaethoch chi ymwneud â'r Ffwrnes Fach? Beth oeddech chi'n gobeithio fyddai'n digwydd o ganlyniad i ymwneud?**

Cafodd ei awgrymu gan ffrind a oedd eisoes yn dod i'r grwpiau yma, do’n ni ddim yn gwybod sut byddai'n edrych, felly do’dd gyda ni ddim disgwyliadau o gwbl. Ro’n i'n

meddwl yn wreiddiol y byddai'n ymwneud â chael dadleuon ar ôl i mi glywed ei fod yn cael ei alw'n People Speak Up ac yna deall ei fod yn fwy seiliedig ar y celfyddydau.

**3. O ganlyniad i ddod i'r FfF, beth ydych chi'n meddwl sydd wedi bod y newid mwyaf arwyddocaol i chi'n bersonol?**

Mae'n lle i ddod a chael coffi gyda ffrindiau, rydym wedi cwrdd â phobl o'n hoedran ni sy'n deall beth yw e i fynd yn hŷn, ma' angen cwmni eich cenhedlaeth eich hunan arnoch. Ni bob amser yn barod i siarad a ni'n mynd allan yn aml nawr oherwydd i ni ddechrau dod i'r lle 'ma. Mae'n braf gwneud ymarferion symudiad gan fod llawer ohonom yn cael trafferth gyda symudedd felly mae'n ein cadw ni'n symud.

**4. Beth achosodd y newid hwn?**

Cwmniaeth. Mae clywed am iechyd gan ffrindiau yn ddiddorol a chlywed am hanes a straeon gan bobl eraill yw'r hyn rydyn ni'n ei hoffi am fod yma

**5. Pe baech yn dweud wrth bobl eraill am People Speak Up, beth fyddech chi'n ei ddweud?**

Ni'n ei fwynhau, mae'n lle i ddod gyda phobol o'ch oedran eich hunan ac i wneud gwahanol weithgareddau. Mae'n ein cadw'n frwdfrydig a phan fyddwn ni yma, rydyn ni'n hapus, ac yn cael chwerthin da. Rwy'n mynd adref ac mae'n dawel a phan fydd pobl eraill yma'n mynd adref, mae'n dawel hefyd felly mae'n braf i ni i gyd ddod yma a chael chwerthin. Rydym wedi creu ein grwpiau bach ein hunain yma.

**6. Pa deitl fyddech chi'n ei roi i'ch stori?**

Mynd allan!